

---

# Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz

Cynigion diwygiedig ar ddyluniad yr arwerthiant

---

## **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 28 Hydref 2019

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 9 Rhagfyr 2019

# 1. Trosolwg

Mae gwasanaethau symudol dibynadwy wedi dod yn hanfodol i'r ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio ar draws y DU, a rhaid i rwydweithiau ffonau symudol gadw i fyny â'r angen cynyddol am gapasiti a darpariaeth. Mae *Sicrhau bod gwasanaethau band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi*, felly yn un o brif flaenoriaethau Ofcom, fel y nodir yn ein cynllun blynyddol.

Mae Ofcom yn rheoli'r sbectrwm radio - sef y tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr fel ffonau symudol yn eu defnyddio i gyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y sbectrwm yn cael ei neilltuo ac yn cael ei ddefnyddio er budd dinasyddion a defnyddwyr y DU. Rydyn ni'n paratoi i ddyfarnu **200 MHz** o sbectrwm mewn dau fand amledd y flwyddyn nesaf. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion wedi'u diweddarau ar gyfer dyluniad yr arwerthiant.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Rydym yn bwriadu arwerthu 200 MHz o sbectrwm mewn dau fand:

- **80 MHz yn y band 700 MHz** - a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer Teledu Daearol Digidol (DTT) a microffonau di-wifr a ddefnyddir yn y diwydiant adloniant. Dylai ddod ar gael ar gyfer defnydd symudol ar draws y wlad erbyn mis Mai/Mehefin 2020.
- **120 MHz yn y band 3.6-3.8 GHz** – mae hwn yn cael ei glirio ar hyn o bryd o'i ddefnydd gan gysylltiadau sefydlog a lloerennau, a dylai ddod ar gael ar gyfer defnydd symudol ar draws y wlad erbyn mis Mehefin 2020. Gallai rhai cyfyngiadau lleol barhau tan ddiwedd 2022.
- **Gwasanaethau band eang a symudol gwell** - mae'r ddau fand yn debygol o gael eu defnyddio gan rwydweithiau ffonau symudol i ateb y galw cynyddol am wasanaethau band eang symudol, ac i ddefnyddio'r datblygiadau technegol diweddaraf, gan gynnwys 5G - sef y genhedlaeth ddiweddaraf o dechnoleg symudol.
- **Ymrwymadau darpariaeth** - yn ein hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2018, fe wnaethom ni gynnig y gallai hyd at ddau gynigydd gael disgownt oddi ar gost y sbectrwm yn gyfnewid am dderbyn rhwymedigaethau i wella'r ddarpariaeth symudol. Fe wnaeth hyn gymell y pedwar cwmni rhwydweithiau symudol i gyflwyno ymrwymadau rhwymol gwirfoddol i wella'r ddarpariaeth symudol drwy rannu seilwaith a chyflwyno rhaglen "Rhwydwaith Wledig i'w Rhannu" a gytunwyd ganddynt gyda'r Llywodraeth. Drwy i ddiwydiant weithio gyda'i gilydd, bydd hyn yn sicrhau darpariaeth uwch na fyddai wedi cael ei chyflawni gan ein cynigion ni. Ar sail yr ymrwymadau hyn, rydym ni nawr yn ymgynghori ar gynigion diwygiedig ar gyfer dyluniad yr arwerthiant na fyddai'n cynnwys rhwymedigaethau darpariaeth mwyach.
- **Fformat arwerthiant** – gan nad ydym bellach yn bwriadu cynnwys rhwymedigaethau darpariaeth, rydym yn awr yn cynnig cynnal yr arwerthiant gan ddefnyddio fformat rownd luosog esgynnol ar yr un pryd (SMRA). Mae hyn yr un fath â'r un a ddefnyddiwyd yn ein harwerthiant yn 2018. Bydd hyn yn golygu **prif gam**, lle bydd cwmnïau'n bidio am y sbectrwm mewn 'lotiau' ar wahân i benderfynu faint y bydd pob cynigiwr yn ennill; a **cham neilltuo**, i bennu'r amleddau penodol a gaiff eu ddyrannu i'r cynigwyr llwyddiannus.
- **Dad-ddarnio'r band 3.4-3.8 GHz band** – rydym hefyd yn cynllunio i gynnwys mesurau i helpu i ddad-ddarnio'r band 3.4-3.8 GHz ehangach, gan gynnwys **cyfnod negodi** lle y bydd enillwyr y sbectrwm 3.6-3.8 GHz yn cael cyfle i gytuno ymysg ei gilydd eu lleoliadau yn y band 3.6-3.8 GHz.

Heddiw, rydym hefyd yn cyhoeddi dogfen ar wahân i ymgynghori yn ei chylch ac sy'n rhoi rhybudd ffurfiol o'n bwriad i roi effaith i'r cynigion diwygiedig ar ddyluniad yr arwerthiant drwy greu Rheoliadau Telegraffiaeth Ddiwifr (Dyfarnu Trwyddedau) 2020 ('Rheoliadau Arwerthiant'). Rydym ni hefyd am gael ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar y Rheoliadau Arwerthiant erbyn [rhowch y dyddiad] Gweler [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0029/172649/proposal-auction-regulations.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0029/172649/proposal-auction-regulations.pdf).

## Y camau nesaf

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 9 Rhagfyr 2019 er mwyn inni eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol. Byddwn hefyd yn ystyried yn llawn yr holl ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2018 ac ym mis Mehefin 2019, yn ogystal â'r holl

## Cynigion diwygiedig ar ddyluniad yr arwerthiant

ymatebion a gawn i'r ymgynghoriadau pellach hyn yn ein dogfen nesaf. Y gobaith yw bod mewn sefyllfa i ddechrau'r arwerthiant erbyn y **Gwanwyn 2020** a byddwn yn nodi'r camau pellach yn fwy manwl ar ôl i'r ymgynghoriadau hyn ddod i ben.